BYWGRAFFIAD ARTIST



Bryn Terfel

Bass-Baritone

Artist Manager: Sioned Jones
sioned.jones@harlequin-agency.co.uk

Yn ymwelydd cyson i brif gwmnïau opera a neuaddau cyngerdd nodedig y byd, mae Syr Bryn Terfel, y bas-bariton o Gymru, wedi creu gyrfa eithriadol i'w hun.

Ar ôl ennill Gwobr y Gân yng Nghystadleuaeth BBC Canwr y Byd Caerdydd yn 1989, gwnaeth Syr Bryn ei début operatig proffesiynol ym 1990 fel **Guglielmo** yn *Così fan tutte* gydag Opera Cenedlaethol Cymru. Dechreuodd ei yrfa operatig ryngwladol yn 1991 fel **Speaker** yn *Die Zauberflöte* yn y Théâtre de la Monnaie ym Mrwsel ac yn yr un flwyddyn gwnaeth ei début yn yr Unol Daleithiau fel **Figaro** gyda Santa Fe Opera. Yn ystod ei yrfa, mae wedi perfformio rolau megis **Méphistophélès** yn *Faust*, y **Brif Ran** a **Leporello** yn *Don Giovanni*, **Jochanaan** yn *Salome*, y **Brif Ran** yn *Gianni Schicchi*, **Nick Shadow** yn *The Rake's Progress*, **Wolfram** yn *Tannhäuser*, **Balstrode** yn *Peter Grimes* a **Four Villains** yn *Les contes d'Hoffman.*

Dathlodd ei ben-blwydd yn 50 oed a 25 mlynedd yn y proffesiwn gyda Chyngerdd Gala arbennig yn y Royal Albert Hall, Llundain a gyflwynwyd gan y seren Hollywood, Michael Sheen. Parhaodd y dathliadau yng Nghanolfan Mileniwm Cymru, Caerdydd, lle perfformiodd **Scarpia** mewn perfformiad cyngerdd arbennig o *Tosca* gydag Opera Cenedlaethol Cymru.

Mae perfformiadau diweddar yn cynnwys **Falstaff** i Grange Park Opera, ei débuts yn rhannau **Don Pizzaro** yn *Fidelio* yn y Schloßberg, Graz a **Don Pasquale** i'r Royal Opera House, Covent Garden, ei début t? yn ABAO Bilbao Opera yn rôl **Holländer** yn *Der fliegende Holländer*, **Sweeney Todd** gyda Zürich Opera, **Boris Godunov** gyda Deutsche Oper Berlin a'r Royal Opera House a **Scarpia** yn *Tosca* yn y Bayerische Staatsoper, Münich, Royal Opera House a'r Wiener Staatsoper, Fiena.

Mae ei uchafbwyntiau operatig eraill yn cynnwys ei début yn canu rhan **Hans Sachs** yng nghynhyrchiad clodfawr Opera Cenedlaethol Cymru o *Die Meistersinger von Nürnberg*, **Wotan** yn *The Ring Cycle* yn y Royal Opera House a'r Metropolitan Opera, Efrog Newydd, ei début yn canu rhan **Reb Tevye** yn *The Fiddler on the Roof* i Grange Park Opera, **Sweeney Todd** i English National Opera a llywyddu g?yl bedwar niwrnod, *Brynfest*, fel rhan o ?yl y Byd yn y Southbank Centre, Llundain.

Yn ddatgeinydd poblogaidd, mae Syr Bryn yr un mor enwog am ei hyblygrwydd fel perfformiwr cyngerdd amryddawn ag ydyw ar lwyfan opera. Mae ei uchafbwyntiau yn amrywio o Seremoni Agoriadol Canolfan Mileniwm Cymru, Caerdydd, BBC Last Night of the Proms, a'r Royal Variety Show i Gyngerdd Gala gyda Andrea Bocelli yn Central Park, Efrog Newydd a churadu cyngerdd Nadolig arbennig a ffrwd fyw ryngwladol yng nghyfres y Metropolitan Opera, *Met Stars Live in Concert* o Eglwys Gadeiriol Aberhonddu. Mae ef wedi perfformio datganiadau ar lwyfannau ledled y byd ac am naw mlynedd, cynhaliodd ?yl ei hun yn y Faenol, Gwynedd.

Mae Syr Bryn yn enillydd Grammy, Classical Brit a Gramophone Award gyda disgyddiaeth sy'n cynnwys operâu Mozart, Wagner a Strauss, a mwy na phymtheg o ddisgiau fel unawdydd yn cynnwys Lieder, Theatr Gerdd Americanaidd, caneuon Cymreig a chaneuon cysegredig.

Yn 2003, derbyniodd CBE am ei wasanaeth i fyd Opera a derbyn Medal y Frenhines am Gerddoriaeth yn 2006. Yn 2017 fe'i gwnaethpwyd yn farchog am ei wasanaeth i gerddoriaeth. Ef oedd y diwethaf i dderbyn Gwobr Shakespeare gan yr Alfred Toepfer Foundation, Hamburg ac yn 2015 derbyniodd Ryddid Dinas Llundain.

Rydym yn diweddaru'n bywgraffiadau yn gyson, felly cysylltwch â ni am y fersiwn ddiweddaraf, os gwelwch yn dda.